John Griffiths AC/AM
Counsel General and Leader of the Legislative Programme
Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Deddfwriaethol

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

17 Mehefin 2010

Annwyl Dafydd

Rheoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) (Dirymu) 2010

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod y bydd yn rhaid torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn dwyn i rym Reoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) (Dirymu) 2010 yng Nghymru.

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gosod gerbron y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mehefin 2010 a byddant yn dod i rym ar 18 Mehefin 2010. Maent yn gweithredu Penderfyniad y Comisiwn 2010/315/EU, dyddiedig 8 Mehefin 2010 a gyhoeddwyd yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ar 9 Mehefin 2010. Mae Penderfyniad y Comisiwn 2010/315/EU yn diddymu Penderfyniad 2006/601/EC (fel y'i diwygiwyd) ar fesurau brys sy'n ymwneud â mewnforio i'r UE yr organedd anawdurdodedig a addaswyd yn enetig, LLRICE601, sydd i'w ganfod mewn cynhyrchion reis sy'n deillio o America. Mae'r mesur hefyd yn darparu ar gyfer cynnal profion ar hap er mwyn sicrhau nad yw'r organedd yn bresennol mewn cynhyrchion reis. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu'r rheoliadau domestig a oedd yn gweithredu mesurau brys yr UE.

Ym mis Awst 2006, dywedodd awdurdodau'r UDA wrth y CE fod olion o'r LLRICE601 anawdurdodedig (tua 0.1%) wedi'u canfod mewn samplau o had reis masnachol, ac mae'n bosibl eu bod wedi mynd i mewn i'r cyflenwad bwyd a bwyd anifeiliaid. Ddiwedd mis Awst, cyflwynodd y Comisiwn fesurau brys i atal deunydd a addaswyd yn enetig (deunydd GM) rhag cael ei fewnforio i'r UE. Aeth y Comisiwn ati i fabwysiadu a chyhoeddi Penderfyniad y Comisiwn 2006/578/EC (a ddiddymwyd yn ddiweddarach a'i ddisodli gan Benderfyniad y Comisiwn 2006/601/EC) a bennodd na allai llwythi o reis grawn hir o'r UDA fynd i mewn i farchnad yr UE oni bai eu bod wedi'u dadansoddi a'u hardystio i ddangos nad ydynt yn cynnwys unrhyw ddeunydd canfyddadwy o LLRICE601. Cafodd Penderfyniad y Comisiwn 2006/601/EC ei ddiwygio ymhellach gan Benderfyniad y Comisiwn 2008/162/EC i adlewyrchu gwelliannau yn y prosesau samplu a dadansoddi a gynhaliwyd yn yr UDA. Caiff Penderfyniad y Comisiwn 2006/601/EC fel y'i diwygiwyd, ei weithredu yng Nghymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8198
PS.CounselGeneral@Wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

gan Reoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) (Dirymu) 2010.

Mae'r sefyllfa o ran presenoldeb LLRICE 601 yng nghynhaeaf reis yr UDA bellach wedi gwella, ac yn sgil hyn, ac absenoldeb canlyniadau cadarnhaol o'r broses samplu a dadansoddi ar hap a gynhaliwyd gan Aelod-wladwriaethau, caniateir dirymu mesurau brys yr UE a'r OS domestig sy'n eu gweithredu.
Bydd Rheoliadau cyfatebol yn dod i rym yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon heb fod yn hwyrach na 18 Mehefin 2010.

Am y rhesymau hyn, ystyrir bod yn rhaid torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn i'r Rheoliadau hyn allu dod i rym yng Nghymru ar 18 Mehefin 2010, yn unol â gweddill y DU. Nid yw'r Rheoliadau hyn wedi bod yn destun asesiad effaith rheoleiddiol gan na fyddant yn cael unrhyw effaith andwyol ar fusnesau, elusennau na chyrff gwirfoddol. Mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi, a'i osod gerbron y Swyddfa Gyflwyno, ynghyd â'r Rheoliadau hyn.

Mae copïau o'r llythyr hwn yn cael eu hanfon hefyd at Janet Ryder, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ac at Stephen George, Clerc y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol.

Yr eiddich yn gywir

John Griffiths AM
Counsel General and Leader of the Legislative Programme
Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Deddfwriaethol